**Ken Skates AC / AM**
**Y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth**
**Deputy Minister for Culture, Sport and Tourism**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref:
Ein cyf/Our ref: LF/KS/0390/15

Christine Chapman AC
Cadeirydd y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol

7fed Mai 2015

Annwyl Christine,

**Bil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru)**

I gynorthwyo'r Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol gyda'i waith o graffu ar Fil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru), y cyflwynais i Gynulliad cenedlaethol Cymru ar 1 Mai, mae'n bleser gen i amgáu Atodlenni Keeling, y Datganiad o Fwriad y Polisi a'r canllaw statudol drafft 'Rheoli Cofnodion Amgylchedd Hanesyddol yng Nghymru'.

Mae'r Atodlenni Keeling yn cyflwyno'r rhannau perthnasol o Ddeddf Henebion Hynafol ac Ardaloedd Archaeolegol 1979 a Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 fel y byddant yn darllen os caiff darpariaethau diwygio Bil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) eu deddfu fel y maent wedi cael eu cyflwyno.

Mae'r Datganiad ar Fwriad y Polisi yn darparu gwybodaeth ar nodau'r polisïau o ran y pwerau dirprwyedig yn y Bil.

Mae'r canllaw statudol drafft, 'Rheoli Cofnodion Hanesyddol yng Nghymru' yn esbonio sut yr ydym yn disgwyl i awdurdodau lleol gyflawni eu dyletswyddau newydd i greu cofnodion amgylchedd hanesyddol, a'u diweddaru'n gyson.

Caiff Bil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) ei ategu gan bolisi, cyngor a chanllawiau a fydd yn adlewyrchu mesurau'r Bil ac yn gwneud gwelliannau ychwanegol i'r systemau sydd eisoes yn bodoli ar gyfer gwarchod amgylchedd hanesyddol Cymru, a'i reoli'n gynaliadwy.

Mae'r dogfennau canllaw drafft canlynol wedi eu cyhoeddi ar wefan Cadw (http://cadw.llyw.cymru/historicenvironment/policy/historicenvironmentbill/guidancedocuments/?lang=cy):

- pennod 6 diwygiedig, 'Yr Amgylchedd Hanesyddol', o Polisi Cynllunio Cymru;
- nodyn cyngor technegol newydd ar gynllunio ar gyfer yr amgylchedd hanesyddol;
- 'Rheoli Newid i Adeiladau Rhestredig yng Nghymru';
- 'Rheoli Newid mewn Safleoedd Treftadaeth y Byd yng Nghymru'; a
- 'Rheoli Rhestrau o Asedau Hanesyddol o Ddiddordeb Lleol Arbennig yng Nghymru'.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0300 0603300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0300 0604400
Correspondence.Ken.Skates@wales.gsi.gov.uk

*Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)*
*Printed on 100% recycled paper*

Bydd ymgynghoriad cyhoeddus ffurfiol ar y dogfennau hyn yn dilyn ar ôl i ddarpariaethau'r Bil gael eu cadarnhau'n derfynol.

Drwy sicrhau bod y dogfennau drafft hyn ar gael yn awr, fy nod yw helpu'r Pwyllgor i weld y Bil fel elfen ganolog o becyn integredig o fesurau i wella'r ffordd y caiff amgylchedd hanesyddol Cymru ei reoli'n gynaliadwy.

Hyderaf y bydd y dogfennau hyn yn ddefnyddiol i aelodau'r Pwyllgor ac edrychaf ymlaen at roi tystiolaeth lafar gerbron y Pwyllgor yn y man.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Gadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol.

Yn gywir,

**Ken Skates AC / AM**
Y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth
Deputy Minister for Culture, Sport and Tourism